Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

# **Coronafeirws:** Ymocheling

Mae rhai pobl yn agored iawn i'r coronafeirws, ac mae'r llywodraeth wedi eu cynghori i ymochel. Mae hyn yn golygu aros yn yr adeilad cymeradwy, ac ymochel hyd y gellir.

- Darperir masg ichi yn yr adeilad cymeradwy. Bydd staff yr adeilad cymeradwy yn eich cefnogi ac yn darparu pecynnau gweithgareddau ichi, i basio'r amser.
- Os ydych am dreulio amser y tu allan dylech ofalu nad ydych yn cael mwy o gyswllt nag sydd raid gyda phobl eraill drwy gadw 2m ar wahân.
- O'r 6ed o Orffennaf ymlaen, gallwch gyfarfod mewn grŵp o hyd at 6 o bobl eraill y tu allan ond dylech gadw pellter cymdeithasol.
- Byddwch yn wyliadwrus pan fyddwch yn gadael yr adeilad cymeradwy gan osgoi ymgynnull gyda phobl eraill. Byddwn yn cadw pellter cymdeithasol yn yr adeilad cymeradwy hefyd.
- Dylech osgoi cael cyswllt gydag unrhyw un sy'n arddangos symptomau'r coronafeirws.

### Os ydych yn ymochel

Mae'r rheolwr troseddwyr a staff yr adeilad cymeradwy yn barod i'ch cefnogi.

**Cofiwch fod amodau eich trwydded yn dal mewn grym.**

BOD YN WYLIADWRUS

**RHEOLI'R FEIRWS**

ACHUB BYWYDAU